

## Croeso i Goedwig Brechfa

Coedwig o dras

**Hyd ddechrau'r Canol Oesoedd, nodweddiwyd y tir i'r gogledd i afon Cothi gan goedwig drwchus, sef Coedwig Glyncothi, a oedd yn ganolog i amddiffyn a chynnal annibyniaeth tywysogaeth Gymreig y Deheubarth.**

Yn sgil trechu Cymru'n derfynol gan Edward I ym 1283, daeth Glyncothi'n Goedwig Frenhinol a'i gweinyddu dan Ddeddf Iem y Goedwig. Roedd Deddf y Goedwig yn cynnwys cosbau difrifol am droseddau yn erbyn 'cig carw' a'r 'vert' fel ei gilydd. Roedd y 'vert' yn cynnwys coed, coedlannau, prysgwydd a thir bwyddo'r helwriaeth. Roedd 'cig carw' yn cynnwys holl anifeiliaid y goedwig - ac yng Nglyncothi yn y Canol Oesoedd, roedd hyn yn cynnwys y carw coch, bwch y danas ac iwrch, y baedd gwyllt, y blaidd, y cadno, yr ysgyfarnog a'r bele. Diddymwyd Deddf y Goedwig yn derfynol ym 1640, ac roedd y rhan fwyaf o'r hen goedwigoedd derw wedi'u cwmpo a'u clirio erbyn yr 17eg ganrif.

Mae coedwig wahanol iawn wedi dychwelyd erbyn heddiw. Yn sgil y defnydd trwm ar goed yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf crëwyd coedwigoedd y wladwriaeth a'r Comisiwn Coedwigaeth. Erbyn heddiw mae coedwig Brechfa'n gorchuddio rhyw 6500 hectar. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gofalu amdani er lles y bobl, y bywyd gwylt, a chynhyrchu coed. Mae Llwybrau cerdded a llwybrau beicio mynydd ar gael i chi eu mwynhau, ac mae croeso i rai sy'n marchogaeth, ar ffyrdd y goedwig.

## Welcome to Brechfa Forest


A forest with quite a pedigree

**Up to the early Middle Ages the areas north of the river Cothi were heavily wooded, forming the Forest of Glyncothi, vital to the defence and independence of the Welsh principality of Deheubarth.**

Following the final defeat of Wales by Edward I in 1283, Glyncothi became a Royal Forest administered under the harsh Forest Law. Forest Law involved severe punishment for offences against both 'venison' and 'vert'. The 'vert' included trees, coppices, the underwood and feeding ground of the game. Venison covered all the forest animals - in medieval Glyncothi these included red deer, fallow deer and roe deer, wild boars, wolf, fox, hare and marten. Forest Law was finally abolished in 1640, with most of the ancient oakwoods felled and cleared by the 17th century.

Today a very different forest has returned. The heavy use of timber in the First World War resulted in the creation of state forests and the Forestry Commission. Today Brechfa Forest covers some 6500 hectares and is looked after by Natural Resources Wales for the benefit of people, wildlife and timber production. There are walking and mountain bike trails for you to enjoy, with horse riders welcome on forest roads.

## Coedwig Brechfa Forest



Mae'r goedwig yn safle o ddefnydd cymysg, byddwch yn ymwybodol fod yna bosiblrwydd y deuch ar draws cerddwyr, cŵn, beiciau mynydd, ceffylau neu gerbydau ar unrhyw adeg.



The forest is a mixed-use site, please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikes, horses or vehicles at any time.

## Llwybr Cerdded Gwarallt Walking Trail



### Llwybr Gwarallt

#### Gwarallt Trail



Hawdd | Easy

Pellter | Distance: ¼m | 0.45km

Anser | Time: ¼ awr | hour


Dringo | Climb: 100 tr/ft | 30m

**UCHAFBWYNTIAU:** Dringwch drwy goetiroedd ffawydd i gyrraedd man agored a blianwyd â choed brodorol fel y dderwen, y graifolen a'r fedwen. Bydd y rhain yn disodli'r coed yr ydym wedi'u symud nad ydynt yn rhai brodorol. Yma ceir golygfeydd gwych o ehangder Cwm Marlais a Chwm Cothi a'u cymysgedd o dir pori agored a choetiroedd. Mae golygfeydd gwych yn ogystal o rannau gorllewinol Coedwig Brechfa.


**Ydy'r daith hon yn iawn i chi?** Mae angen bod yn weddol ffit. Anaddas ar gyfer cadeiriau gwthio plant bach. Argymhellir gwisgo esgidiau cerdded a dillad glaw.

**HIGHLIGHTS:** Climb through beech woodlands to reach an open area planted with native trees such as oak, rowan and birch. These will replace the non-native coniferous trees we have removed. Here fantastic views of the Marlais and Cothi valleys open up with their mix of open pastureland and woods. There are also good views of the western part of Brechfa Forest.

**Is this walk right for you?** Suitable for families, pushchairs (no steps), and is designed for wheelchairs but involves a gradual climb. Low level of fitness required. Walking shoes with a good grip recommended.



parcio parking



parcio hygrych accessible parking



llwybrau cerdded walking trails



lle picnic picnic area



llwybrau beicio mynydd mountain bike trails

## Taith i bawb

Croeso i Warallt. Derbyniodd grŵp cymunedol lleol o'r enw 'Pobl y Fforest' arian gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn) i greu'r llwybr byr ond deniadol hwn. Y nod oedd iddo fod yn addas i'w ddefnyddio gan bawb. Mae'r golygfeydd o'r pen yn werth dringo i'w gweld.

## A trail for all

Welcome to Gwarallt. A local community group called 'Pobl y Forest' received funding from Forestry Commission Wales (now Natural Resources Wales) to create this short but attractive trail. The aim was for it to be suitable for use by all. The views from the top are worth the climb.



LAWRLWYTHWCH EIN  
**APIAU DI-DAL**  
ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR  
**FREE APPS**  
for Android and iPhone

CYMRU | WALES  
**PlacesToGo**

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru. To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU | WALES  
**PlaceTales**

I ganfod nodweddion hynod ddifry yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol. To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.



Noddir gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government